

## Taith Llangrannog Blwyddyn 8





Roedd blwyddyn 8 yn genfigennus iawn pan aeth blwyddyn 7 ar eu taith i Langrannog. Roeddent wedi colli allan ar daith eu hunain ar ddechrau blwyddyn 7 oherwydd COVID. Doedd Mrs Llwyd na Miss Jones yn meddwl bod hyn yn deg iawn felly'r unig beth amdani oedd trefnu taith yn arbennig i flwyddyn 8!

Ar ddydd Llun yr 16eg o Ionawr aeth dau fws llawn disgyblion, swogs ac athrawon cyffrous i wersyll yr Urdd yn Llangrannog. Ar ôl siwrne hir ar y bws, roedd llond bol o sglodion a ham wedi eu paratoi ar gyfer prynhawn o weithgareddau. Yn y nos, roedd cyfle i flino yn y gemau potes ac i ganolbwyntio yn ystod y bingo a'r cwis.



Ar ôl noson dda o gwsg, roedd mwy o weithgareddau ar y gweill megis y rhaffau isel, y cwods, gwibgartio a'r llethr sgïo! Braf oedd gweld disgyblion blwyddyn 8 yn mwynhau'r gweithgareddau'r wrth ymarfer eu Cymraeg. Yn ystod cinio ar yr ail ddydd, roedd hi'n bwrw eira – am ddigwyddiad hyfryd i gael wrth edrych allan dros y môr. Ar ôl swper ar yr ail noson cawsom daith gerdded lawr i'r traeth. Roedd yn hyfryd cael gwrando ar sŵn y môr a hithau'n dywyll braf. Unwaith i ni gyrraedd yn ôl, cawsom fyrbryd cyn mynd i'r gwely.



Yna, roedd y diwrnod olaf wedi cyrraed – roedd yr amser wedi hedfan! Cawsom frecwast blasus cyn mynd ati i bacio a thacluso'r ystafelloedd. Roedd digon o amser am ddau weithgaredd arall cyn cael cinio hyfryd a theithio ar y bws yn ôl i'r ysgol. Roedd e wir yn daith fythgofiadwy ac mae diolch mawr yn mynd i Miss Jones, Mrs Llwyd a'r athrawon oedd wedi edrych ar ôl y disgyblion mor dda dros y tridiau.








## Dawnsio



Llongyfarchiadau i ddawnswyr Garth Olwg am fod yn rhan o berfformiad dawns yn Neuadd Dewi Sant ym mis Chwefror.

Eleni am y tro cyntaf ers tair blynedd, dawnsiodd 45 o ddisgyblion o'r Ysgol Ganol a'r Ysgol Uchaf berfformiad arbennig o dda ar lwyfan Neuadd Dewi Sant. Roedd y disgyblion wedi ymarfer yn ddwys ac wedi dangos eu talent ar y llwyfan - da iawn chi!

## Ar ein ffordd i Ynysoedd y Balearig



Llongyfarchiadau mawr iawn i Lauren Knight, Ava Martin Thomas a Seren Kyte am ennill cystadleuaeth ECCA This is my language. Maent wedi ennill y fraint o gynrychioli Cymru yng nghampws iaith ECCA yn Ynysoedd y Balearig. Roedd angen iddyn nhw hybu'r Gymraeg a denu ymwelwyr i Gymru ar unrhyw ffurf. Creodd Lauren gerdd a gwnaeth Seren ac Ava fideo yn cyd-fynd gyda'r gerdd. Byddant yn cydweithio gyda gwledydd eraill i geisio meddwl am ffyrdd i hybu ieithoedd lleiafrifol tra yn Mallorca.




## Perfformiadau Mewn Cymeriad

Cafodd ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen wledd un bore pan ddaeth Arglwyddes Llanofer i ddysgu'r plant am hanes y wisg Gymreig. Cafodd flynyddoedd 3 – 6 hefyd gyfle i weld perfformiad difyr iawn am hanes Dic Penderyn. Roedd y plant wrth eu boddau ac wedi dysgu llawer. Bara neu waed!





## Llwyddiant Gymnasteg



Yn ystod mis Chwefror aeth criw o ddisgyblion bl.7 a 8 i gystadleuaeth 'vault' a tymbl y sir. Llwyddodd Milly Watkins, Evie Egan a Chloe Mckay, y tair ym mlwyddyn 8 i orffen yn y 6 uchaf ac felly wedi eu dewis i gynrychioli'r sir yn y gystadleuaeth genedlaethol. Ar y 3ydd o Fawrth aeth y merched i'r gystadleuaeth genedlaethol yng Nghaerdydd fel rhan o dîm o 6 gymnastwraig Cymoedd Morgannwg. Fe orffennodd y tîm yn y 3ydd safle sydd yn llwyddiant arbennig.






## Sioe Martyn Geraint

Roedd y dosbarth Meithrin a Derbyn yn gyffrous iawn un bore pan groesawyd Martyn Geraint yn ôl i'r ysgol unwaith eto. Cawsom lawer o hwyl a sbri yn ei gwmni yn canu a dawnsio i ganeuon newydd yn ogystal â llawer o'i hen ffefrynnau. Gadawodd bob plentyn y neuadd gyda gwên ar eu hwynebau.
Diolch o galon Martyn!

## Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau enfawr i'r tîm cwis llyfrau am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth. Rydym yn falch iawn o bob un ohonoch.



## Dydd Miwsig Cymru

Roedd Garth Olwg yn fôr o ganu a cherddoriaeth i'w chlywed ledled yr ysgol wrth i ni ddathlu'r cyfoeth o gerddoriaeth sydd gennym ni yn y Gymraeg. Er mwyn hyrwyddo'r iaith a miwsig unigryw'r Gymraeg, cynhaliom ni ddisgo ar gyfer yr Ysgol Isaf a Chanol gyda'r genhedlaeth iau yn bloeddio canu ac yn arddangos eu sgiliau dawnsio! Braint oedd trefnu'r gweithgaredd bywiog a gweld cymaint o foddhad. Buom hefyd yn brysur yn ffilmio clipiau o athrawon a disgyblion yr ysgol gyfan yn dawnsio, chwifio, gwenu, bloeddio - y cyfan yn y Gymraeg! Roedd yr iaith yn fyw a theimlais falchder wrth weld y disgyblion yn morio canu ac wrth eu boddau yn hyrwyddo'r iaith a diwylliant yr ysgol a'n gwlad. Catalunya gan Gwilym oedd cefndir y fideos sy'n ddewis addas wrth i ninnau hefyd 'ysu am y blas'. Gwelwyd posteri yn chwifio gan yr Ysgol Isaf a Chanol a hoffaf ddiolch yn fawr i Fenter Iaith RhCT am drefnu gig Hana Lili i flwyddyn 7, am brofiad cofiadwy i mi! Hoffaf ddiolch i'r athrawon am arddangos eu hoff ganeuon ar ddrysau eu hystafelloedd ac i Miss Bedwyr am drefnu cwis cystadleuol rhwng y staff a'r chweched. Heb amheuaeth, nid oes angen cyfeirio at ganlyniad y cwis - ni heb os oedd yr ail feiolin. Roedd gallu trefnu'r gweithgareddau yn brofiad gwerthfawr iawn i mi fel aelod o flwyddyn 12 ac rwyf yn ymfalchïo yn yr holl gyfleoedd mae gallu siarad yr iaith Gymraeg wedi cynnig i mi dros y blynyddoedd. Mae modd gwylio ein fideo yma. Greta Hall Williams

Mi oedd yn fraint gallu perfformio caneuon Cymraeg o flaen yr Ysgol Isaf er mwyn hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru. Roedd mwynhad y plant yn amlwg ac roedd hi'n wych eu gweld nhw'n ymuno.
Catrin England





**Dilynwch ni ar Twitter :**
**@garth_olwg | @TE_Prifathro | @OlwgPontio @GarthOlwg_Canol | @GarthOlwg_Hyn | @GarthOlwg_Isaf | @IechydaLlesGO | @AddGorffGO | @mathgarth | @GarthOlwg_AwyrA | @SaesnegGO @OlwgPontio @adranYGymraegGO | @DaearGO | @DramaOlwg | @CelfyddydauYGO | @IRhGarth |@GwyddGarth | @CelfGarth |@PwyllgorEcoGO @DyniaethauGO | @GarthOlwg_DaTh |@CerddoriaethGO**

## Mentora Ieithoedd Prifysgol Caerdydd



Daeth mentor ieithoedd o Brifysgol Caerdydd i'r ysgol ar ddydd Llun y 27ain o Fawrth ar gyfer ail ymweliad gyda disgyblion blwyddyn 8. Y tro hwn, roedd y disgyblion wedi gweithio ar idiomau a sut maent yn amrywio o un iaith i'r llall. Diddorol oedd gweld y gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng yr ieithoedd. Yna, cawsant gyfle i edrych ar ddiwylliant gan wrando ar gerddoriaeth hip hop yn Ffrangeg ac edrych ar yr iaith sydd yn cael ei defnyddio yn y caneuon. Hoffa’r ysgol ddiolch i Keyin am ei gwaith ar draws y ddwy sesiwn ac mae’r disgyblion yn sicr wedi elwa a nifer ohonynt yn bwriadu parhau i astudio ieithoedd yn y dyfodol.

Cafodd blwyddyn 9 y cyfle i weithio gyda mentor arall. Yn y sesiwn hon, roedd blwyddyn 9 wedi edrych ar darddiadau eu henwau a sut mae enwau’n cael eu cyfieithu o un iaith i'r llall. Roeddent hefyd wedi edrych i'r dyfodol gan drafod y gwledydd hoffant fynd iddynt a’r ieithoedd yr hoffant eu dysgu. Roedd hyn wir wedi codi dyheadau nifer o’r disgyblion gan fod yn uchelgeisiol iawn am eu dyfodol rhyngwladol. Diolch mawr i Noah am ei waith ac am fod yn ysbrydoliaeth i flwyddyn 9.

## Gŵyl Ieuenctid Cerdd

Bu ensemble lleisiol blwyddyn 10 a chôr yr Ysgol Isaf a Chanol yn perfformio mewn Gŵyl Ieuenctid Cerdd ym Mhafiliwn Porthcawl, gan dderbyn clod am safon eu canu a’u perfformio. Da iawn chi!





## Diwrnod Rhyngwladol y Merched





Ar gyfer dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched roedd y Fforwm Cydraddoldeb wedi bod yn brysur yn cynnal gwasanaethau i'r Ysgolion Hŷn ac Uchaf. Hoffwn ddiolch i Grace Rogerson am ei hysgrifennu ac am fod mor frwdfrydig wrth ei chyflwyno. Roedd yn bwysig i'r fforwm hysbysu’r disgyblion am fenywod pwysig mewn gwahanol feysydd, felly gwnaethom daflenni gwybodaeth o fenywod ysbrydoledig i'w harddangos o gwmpas yr ysgol. I gyd fynd gyda thema'r rhyngwladol eleni sef '#embraceequity' daeth cymuned Ysgol Garth Olwg ynghyd gyda staff a disgyblion yn ymuno yn y collage i ddangos ein cefnogaeth am y dydd.

## Mis Hanes LHDT







Ar gyfer dathlu Mis Hanes LHDT roeddem ni fel Fforwm Cydraddoldeb wedi gweithio’n galed iawn i godi ymwybyddiaeth. I ddechrau roedd yn bwysig i'r ysgol gyfan gael hanes pwysigrwydd y Mis, a gwnaethom gynnal gwasanaethau ar draws yr ysgolion i gyd – gydag aelodau amrywiol o'r Fforwm ar gyfer pob ysgol. Roedd yn wych gallu rhannu'r wybodaeth a nodi pwysigrwydd y mis gyda’r ysgol gyfan. Gwnaethom hefyd werthu cynnyrch yr enfys a losin ar gyfer codi arian i'r Elusen Stonewall. Roedd aelodau'r Fforwm wedi gweithio yn galed i greu bathodynnau a bagiau losin. Ar gyfer yr Ysgol Isaf cafwyd disgo'r enfys – gyda phawb yn lliwgar gyda phaent wyneb a 'loom bands' amryliw. Hefyd lansiwyd cystadlaethau creu cynnyrch yr enfys a llongyfarchiadau i Leah Price Bl8 am ennill gyda'i champwaith. Roedd brwdfrydedd y disgyblion yn wych a phleser oedd gweld eu holl waith caled!





## Coleg yr Iwerydd




Llongyfarchiadau i Catrin Rees, blwyddyn 11 ar ennill lle yn UWC Dilijan, un o ddeunaw coleg rhyngwladol, sydd wedi ei leoli tu allan i Dilijan ym mynyddoedd Armenia. Mae'n goleg sydd â disgyblion o ryw 80 o wledydd ac ar gyfer pobl sy'n hoffi'r amgylchedd a diwylliannau gwahanol. Bydd yn astudio'r Fagloriaeth Ryngwladol sy'n cynnwys 6 pwnc am ddwy flynedd. Pob lwc i ti Catrin a chadwa mewn cysylltiad!

## Neidio i frig Cymru



Enillodd Finley Davies o flwyddyn 8 gystadleuaeth Trampolinio Ysgolion Prydain ym mis Mawrth! Fe enillodd y gystadleuaeth genedlaethol ar ddechrau'r flwyddyn ac felly aeth trwyddo i gynrychioli Cymru fel disgybl Ysgol Garth Olwg, ac yna ennill y gystadleuaeth. Camp a hanner!

## Eisteddfod yr Urdd




Bu disgyblion yr ysgol gyfan yn brysur yn yr Eisteddfod Gylch a Sir yr Urdd y tymor hwn, gyda nifer o lwyddiannau i'r disgyblion - llongyfarchiadau i chi i gyd! Dyma ganlyniadau'r Eisteddfod Sir:
Oed Uwchradd:

Grŵp llefaru Bl 10-13 - 1af
Ymgom bl 10-13 - 2il
Côr SA Bl 13 ac iau - 1af
Parti merched bl 7,8,9 - 2il
Perfformiad theatrig i grŵp bl 10-13 - 1af
Ymgom bl 7-9 - 1af
Deuawd bl 10-13 - 1af - Sara Rees Roberts a Miley Goss
Unawd bl 10-13 - 1af - Sara Rees Roberts, 2il - Ffion Fairclough, 3ydd - Catrin England
Perfformiad theatrig unigol bl 10-13 - 1af - Taliesin Thomas
Perfformiad o sioe gerdd bl 10-13 - 1af - Sara Rees Roberts
Dawns greadigol - 1af
Dawns hip hop / stryd - 1af



Oed Cynradd:

Nel Spanswick - 1af adrodd 2il canu bl 1 a 2
Anni Gwyn - 1af llefaru bl 3 a 4
Lillian Facey - 3ydd llefaru bl 5 a 6
Beca George 1af - unawd piano bl 5 a 6
Liberty Dosett 1af - drymio bl 5 a 6
Côr 2il
Da iawn i bawb ddaeth yn 1af a fydd yn cynrychioli'r rhanbarth yn Llanymddyfri.



## Gwasanaeth Gwaed Cymru

Daeth Gwasanaeth Gwaed Cymru i mewn i'r Ysgol ym mis Ionawr i gymryd gwaed ac roedd disgyblion yr Ysgol Hŷn a'r Staff wedi llwyddo i lenwi pob slot ar gyfer rhoi gwaed! Diolch i'r staff ac yn enwedig i'r disgyblion am roi eu gwaed er mwyn arbed bywydau.



| Dyddiadau Tymor Ysgol | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|
| ~~1 (Hydref 2022)~~ | ~~05/09/2022~~ | ~~28/10/2022~~ |
| ~~2 (Hydref 2022)~~ | ~~07/11/2022~~ | ~~23/12/2022~~ |
| ~~3 (Gwanwyn 2023)~~ | ~~09/01/2023~~ | ~~17/02/2023~~ |
| ~~4 (Gwanwyn 2023)~~ | ~~27/02/2023~~ | ~~31/03/2023~~ |
| 5 (Haf 2023) | 17/04/2023 | 26/05/2023 |
| 6 (Haf 2023) | 05/06/2023 | 24/07/2023 |

## Taith Rygbi i Barc Rosslyn





Cyn Pasg roeddwn ni wedi mynd i Lundain i Barc Rosslyn ar gyfer cystadleuaeth rygbi 7 bob ochr. Arhoson ni yng ngwesty Travelodge am 2 noson. Cawsom ni frecwast hyfryd pob bore yn mwynhau yng nghwmni ein gilydd. Ar y bore cyntaf roeddwn ni wedi mynd i chwarae rygbi am tua 5 awr! Roeddwn ni wedi ennill y gêm olaf a'r sgôr oedd 25-10. Roedd Taylor Downes, Joel Bevan, Gethin Duggan ac Osian Williams wedi sgorio. Wedyn yn y nos aethom ni i fwyty pitsa gyda'r bechgyn. Y bore nesaf aethon ni i wylio'r Harlequins yn erbyn y Saracens yn stadiwm Tottenham cyn teithio am adref ar ôl y gêm - gwnaethom ni fwynhau pob eiliad! Noah Davey.

## Cydweithio gydag Ysgol Blessed Carlo Acutis

Rydym wedi bod yn cydweithio gydag Ysgol Blessed Carlo Acutis eleni i hybu Cymreictod. Aethom ni atyn nhw ym mis Ionawr i ddysgu Gemau Buarth i ddisgyblion y Criw Cymraeg fel eu bod nhw yn medru dysgu'r gemau i weddill disgyblion yr ysgol. Daeth disgyblion Criw Cymraeg yr adran uwchradd atom ni wedyn ym mis Mawrth i weld sut mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gweithredu. Cawsant gyfle i gymryd rhan mewn gwers goginio yn y Gymraeg a gwnaeth disgyblion blwyddyn 10 Garth Olwg eu helpu. Roedd y bara yn arogli a blasu'n fendigedig!











## Eisteddfod yr Ysgol

Cafodd yr Eisteddfod ysgol ei chynnal ddiwedd hanner tymor y Chwefror lle bu disgyblion o flynyddoedd Derbyn i 8 a'r Ysgol Hŷn yn cystadlu'n frwd ar y llwyfan. Bu blynyddoedd 9 i 11 hefyd yn helpu tu ôl y llenni yn cystadlu yn y gwaith cartref ac yn creu baneri. Roedd y staff hefyd wedi cyfrannu at farciau'r llysoedd gydag eitem staff a chwis i'r staff amser cinio. Clydach oedd y llys buddugol ar ddiwedd yr holl gystadlu a chafwyd diwrnod arbennig yn dathlu ein Cymreictod. Llongyfarchiadau i Mali Williams, Awen Haf Harding a Beca George am lwyddo i ennill cadair yr Eisteddfod. Braf oedd gweld logo newydd y llysoedd yn cael eu harddangos ar draws yr Ysgol yn barod ar gyfer yr Eisteddfod hefyd. Diolch yn fawr i Mrs Cartwright ac i Mr Stephens am feirniadu i ni eleni. Diwrnod a hanner!




















## Siarad Cyhoeddus y Rotari

Llongyfarchiadau i griw'r siarad cyhoeddus am gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth y rotari. Bu'r criw yn dadlau'n frwd dros chwarae teg i ferched mewn chwaraeon. Da iawn chi!



## Derbyn Gwobr Arian y Siarter Iaith

Llwyddodd yr Ysgol i ennill Gwobr Arian y Siarter Iaith llynedd ond cynhaliwyd y seremoni i wobrwyo ysgolion yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd ar ddiwedd mis Mawrth eleni. Cawsom fore wrth ein bodd yn dathlu llwyddiant a gwaith caled ein Pwyllgor Cymreictod a chafwyd geiriau ysbrydoledig gan Huw Stephens am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg.









## Llwyddiant ar y trac

Llongyfarchiadau i Seb Williams, Blwyddyn 10 ar lwyddo i ennill y fedal arian yng Nghystadleuaeth Naid Driphlyg athletau Cymru o dan 17. Gwych Seb!

Llongyfarchiadau hefyd i Rhys Griffin, Blwyddyn 11 ar lwyddo i gipio'r 3ydd safle yng Nghynghrair Cyclocross Cymru. Da iawn ti Rhys!



## Taith yr Adran Gymraeg a Hanes i Wlad Belg

Ar ddiwedd y tymor diwethaf, aeth criw o Flwyddyn 9 ar daith i Wlad Belg er mwyn dysgu am hanes y Rhyfel Byd Cyntaf ac ymweld â Bedd Hedd Wyn. Dysgwyd llawer ar y diwrnod cyntaf yng Ngwlad Belg wrth ymweld â Mynwent Tyne Cot, Fferm Essex, Langemark, Bedd Wyn ac Amgueddfa Passchendaele. Roedd yn ddiwrnod hynod o ddiddorol ac roedd y tywysydd yn adrodd hanes yr ymladd ac amodau'r milwyr mewn modd arbennig. Ar ôl swper, cawsom y cyfle i fynd i weld seremoni'r Last Post yn Menin Gate - roedd yn seremoni teimladwy iawn. Roeddem yn medru gweld Menin Gate o ffenest y gwesty a oedd yn gwneud lleoliad ein harhosiad yn un gwych.

Ar yr ail ddiwrnod, aethon ni i Barc Thema Bellewaerde ac nid oedd ciwiau o gwbl i'r reidiau felly cafwyd diwrnod llawn hwyl ym mynd ar bob reid sawl gwaith! Roedd y baguettes, brecwast a'r swper yn flasus iawn ac roeddwn ni'n ffodus i beidio cael dim ciwiau o gwbl yn Dover y ffordd i Wlad Belg ac adref! Taith fythgofiadwy!











| Diwrnodau HMS |
| --- |
| ~~Dydd Llun 5ed o Fedi 2022~~ |
| ~~Dydd Gwener 30ain o Fedi 2022~~ |
| ~~Dydd Gwener 9fed o Ragfyr 2022~~ |
| ~~Dydd Gwener 23ain o Ragfyr 2022~~ |
| Dydd Gwener 23ain Mehefin 2023 |
| Dydd Llun 24ain Gorffennaf 2023 |